Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

# Cyfrifon Adnoddau'r Adran ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-2001

## RHAGAIR I'R CYFRIFON

### Swyddogaeth a dull o weithredu

Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yw Estyn. Fe'i harweinir gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi a cheir Arolygwyr Ei Mawrhydi a gweinyddwyr ar ei staff. Lleolir hwy yn y Pencadlys yng Nghaerdydd ac mewn swyddfa leol yng Ngogledd Cymru.

Mae gan Estyn gyfrifoldeb statudol dros arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Golyga hyn nad yw ei weithgareddau craidd yn newid o'r naill flwyddyn i'r llall, os na cheir newid i'r ddeddfwriaeth. Felly, bob blwyddyn, bydd Estyn yn cynnal arolygiadau rheolaidd o'r canlynol:

- meithrinfeydd nas cynhelir;
- ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- awdurdodau addysg lleol (fel arfer ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio);
- sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon;
- sefydliadau addysg bellach;
- darparwyr hyfforddiant yn seiliedig ar waith;
- addysg oedolion;
- gwasanaethau ieuenctid; a
- chwmnïau gyrfaoedd.

Yn ystod 2000-01, mae Estyn hefyd wedi cadw ati i arolygu elfennau addysg, gyrfaoedd a hyfforddiant y Fargen Newydd yng Nghymru, yn unol â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Gwasanaethau Cyflogi.

Mae Estyn hefyd yn darparu cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru sy'n dod o fewn y cylch gwaith a roddir yn flynyddol i'r Prif Arolygydd gan y Cynulliad. Mae'r cylch gwaith yn darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau staff Estyn, gan ei fod yn nodi'r gwaith sydd angen ei gyflawni mewn unrhyw flwyddyn er mwyn cefnogi blaenoriaethau addysg a hyfforddiant y Cynulliad.

Manylir ar ddulliau arolygu Estyn yn y fframweithiau a'r canllawiau cyhoeddedig. Mae'r dogfennau hyn, sy'n helpu i sicrhau ansawdd a chysondeb yr arolygiadau, yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

### Prif nod ac amcanion

Nod Estyn yw codi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy arolygu a chynghori.

Amcanion Estyn ar gyfer 2000-01 oedd:

- sefydlu a chynnal systemau ar gyfer arolygu ysgolion a meithrinfeydd a ariennir;

- darparu cyngor da ar sail gwybodaeth gadarn ar addysg a hyfforddiant i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gwneud yn hysbys arferion da sy'n seiliedig ar dystiolaeth arolygu;

- darparu asesiadau daar sail gwybodaeth gadarn am y ddarpariaeth addysg bellach yng Nghymru, yn unol â thelerau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru;

- cynnal arolygiadau o hyfforddiant a ariennir gan y Cynulliad a gwaith y cwmnïau gyrfaoedd, yn unol â fframwaith y cytunwyd arno.

**Cyllido**

Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond fe'i hariennir ganddo, o dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Diwyg y cyfrifon**

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan Atodlen 6(5) i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn unol â'r cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Gellir cael gafael ar gopi o'r cyfarwyddyd hwnnw oddi wrth Estyn yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.

Dim ond asedau, rhwymedigaethau ac alldro ariannol Estyn y mae'r cyfrifon hyn yn eu dangos.

**Y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn**

Mae'r Datganiad o'r Costau Rhedeg yn dangos cost rhedeg net o £6,779,000 am y flwyddyn (1999-2000 £8,132,000), sy'n ostyngiad o 16.6% yn y gwariant net o'i gymharu â llynedd. Mae diffyg o £225,000 ym malans y Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn (ym 1999-2000, roedd diffyg o £640,000) sy'n ostyngiad o 60% yn y diffyg. Mae'r diffyg yn deillio'n bennaf o'r nifer cymharol uchel o gredydwyr a ddangosir ar Fantolen Estyn. Contractau a wnaed ar gyfer arolygiadau ysgol yw'r credydwyr hyn. Bydd Estyn yn derbyn arian gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn talu'r rhwymedigaethau hyn pan fyddant yn aeddfedu ym mlwyddyn ariannol 2001-02.

Un o dargedau ariannol allweddol Estyn yw cadw gwariant o fewn y cyllidebau arian parod. Cyflawnwyd hyn fel a ganlyn yn 2000-01:

| | Cyllideb Arian Parod | Alldro Arian Parod | Tanwariant/ (Gorwariant) |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfanswm | 9,650 | 6,793 | 2,857 |

Deillia'r tanwariant uchod yn bennaf o'r gostyngiad parhaus ym mhrisiau arolygon ysgol a gontractiwyd i ddarparwyr allanol. Er gwaethaf y newidiadau hyn mewn prisiau, mae gan Estyn weithdrefnau ar gyfer sicrhau y cynhelir gwasanaeth arolygu o ansawdd uchel, gan fod contractau yn agored i broses dendro gystadleuol.

Mae'r tanwariant hefyd yn ganlyniad i'r ffaith bod Estyn wedi symud i mewn i adeilad newydd yng Nghaerdydd ar derfyn blwyddyn ariannol 2000-01. Yr oedd hyn yn golygu bod y costau cysylltiedig, gan gynnwys cost caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol newydd, wedi disgyn bron yn gyfangwbl yn 2001-02. Ni lwyddwyd i symud i adeilad newydd yng Ngogledd Cymru tan fis Mai 2001 gan fod trafodaethau hirfaith ynghylch y brydles.

**Arolwg o weithgareddau**

Adroddir am ganfyddiadau arolygiadau Estyn bob blwyddyn yn 'Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru'. Cyflwynwyd y ddogfen ddiweddaraf gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2001. Mae'r adroddiad ar gael oddi wrth Y Llyfrfa.

Fel y rhagfynegwyd yn y Rhagair i Gyfrifon Adnoddau Adrannol Estyn ar gyfer 1999-2000, parhaodd y gwaith o ailstrwythuro'r sefydliad yn ystod 2000-01 gyda mwy o staff yn cael eu recriwtio i swyddi newydd.

**Targedau gweithredol**

Pennodd Estyn nifer o dargedau neilltuol i'w cyrraedd yn y flwyddyn ariannol a dylanwadwyd ar rai ohonynt gan gylch gwaith a dderbyniwyd oddi wrth Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru. O flwyddyn ariannol 2000-01 ymlaen, cyhoeddir dangosyddion perfformiad yn flynyddol ar wefan Estyn mewn Adroddiad Cynnydd Blynyddol.

**Datblygiadau yn y dyfodol**

Yn ystod 2000-01, bu Estyn yn paratoi ar gyfer cyfrifoldebau arolygu newydd mewn nifer o feysydd newydd, gan gynnwys addysg a hyfforddiant ôl-16 a gwaith ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio ar arolygu Gwerth Gorau mewn awdurdodau lleol. Cychwynnwyd ar y gwaith newydd hwn i gyd ar 1 Ebrill 2001.

Fel rhan o'i gylch gwaith blynyddol oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn 2001-02, ymysg materion eraill, bydd Estyn yn adrodd ar y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig, llythrennedd deuol – sef defnyddio sgiliau dwyieithrwydd, arwain a rheoli mewn ysgolion cynradd.

Bydd Estyn yn parhau â'i arolwg o'i fframweithiau a'i weithdrefnau arolygu ei hun, fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2001-02.

Yn ystod 2001-02, bydd Estyn hefyd yn parhau i ddatblygu ei allu i gyfathrebu'n electronig. Bydd hyn yn cynnwys e-bost allanol a phresenoldeb ar y we.

**Uwch swyddogion**

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

| | |
|---|---|
| Miss S Lewis | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a Swyddog Cyfrifo |
| Mr MG Haines | Pennaeth Adran Arolygu: Addysg Cyn-16 a'r Blynyddoedd Cynnar |
| Mrs S Howells | Pennaeth Adran: Polisi, Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mrs ER Kidd | Pennaeth Adran Arolygu: Addysg a Hyfforddiant ôl-16 |

**Penodi uwch swyddogion**

Penodwyd pob aelod o'r Bwrdd Rheoli yn unol â Chôd Rheoli y Gwasanaeth Sifil.

Penodwyd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Ysgolion yng Nghymru ar 1 Mehefin 1997 drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 4 o Ddeddf Arolygu Ysgolion 1996. Newidiwyd teitl y Prif Arolygydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Gwnaed y penodiad am uchafswm o 5 mlynedd. Nodir rheolau'r penodiad yn Nghôd Rheoli y Gwasanaeth Sifil.

**Taliadau i aelodau'r Bwrdd Rheoli**

Penderfynir ar daliadau i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Arolygu Ysgolion 1996. Mae'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau cymeradwyaeth gan Weinidog y Gwasanaeth Sifil.

Penderfynwyd ar daliadau gweddill aelodau'r Bwrdd Rheoli gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn unol â chanllawiau'r Trysorlys ar daliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Rhoddir manylion pellach am daliadau yn nodyn 2 i'r cyfrifon hyn.

**Cynllun pensiwn**

Cynhwysir gweithwyr presennol a chyn-weithwyr yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) sy'n anghyfrannol a heb ei gyllido (gweler nodyn 1.9 i'r cyfrifon hyn). Ceir datganiad ar wahân ar gyfer cynllun y PCSPS at ei gilydd.

**Cyfle cyfartal**

Polisi Estyn yw y dylai pob gweithiwr ac ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal i gael swydd a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylai unrhyw ymgeiswyr am swydd na gweithwyr gael eu trin yn llai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, tueddiadau rhywiol, oed, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig neu batrymau gweithio, er enghraifft, gweithio rhan amser, ac ni ddylai unrhyw unigolyn fod o dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir profi eu bod yn gyfiawn.

Mae Estyn yn dilyn Côd Ymarfer y Gwasanaeth Sifil ar gyfer cyflogi pobl ag anabledd, sy'n anelu at sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu ar sail anabledd, a bod cyfle i gael gwaith a datblygu gyrfa o fewn Estyn yn seiliedig ar allu, cymwysterau ac addasrwydd ar gyfer y gwaith yn unig.

**Siarter y Dinesydd**

Mae Estyn wedi ymrwymo i egwyddorion Siarter y Dinesydd ac yn eu hymgorffori ym mhob un o'i arferion.

**Polisi Talu**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu ystod o wasanaethau ariannol i Estyn gan gynnwys prosesu taliadau i gyflenwyr. O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, mae'n ofynnol i'r Cynulliad dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch cyn pen 30 diwrnod ar ôl i'r nwyddau neu'r gwasanaethau neu'r anfoneb ddilys ddod i law, pa un bynnag sy'n cyrraedd hwyraf.

Llwyddwyd i wneud hyn ar gyfer 92.0% o bob taliad o'r fath yn 2000-01 (1999-2000 99.2%). Mae'r dirwyiad mewn perfformiad ers 1999-2000 yn ganlyniad i'r ffaith fod nifer y taliadau y mae'r Cynulliad yn eu gwneud wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn.

**Archwilwyr**

Archwilir cyfrifon Estyn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Yn unol â'r arferion gorau presennol, mae Estyn wedi sefydlu pwyllgor archwilio er mwyn cynghori Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ynghylch pa mor ddigonol yw'r trefniadau archwilio (yn fewnol yn ogystal ag yn allanol).

**Digwyddiadau er diwedd y flwyddyn ariannol**

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau er dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar y ddealltwriaeth o'r datganiadau ariannol hyn.

**Susan Lewis**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo**
**9 Hydref 2001**

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFO

O dan Atodlen 6(5) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae gofyn i Estyn baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys, gan roi manylion yr adnoddau a gafodd eu caffael, a gadwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn, a'r defnydd a wnaed o'r adnoddau gan Estyn yn ystod y flwyddyn.

Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn, cyfanswm net alldro'r adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian parod am y flwyddyn ariannol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Swyddog Cyfrifo ar Estyn, ac ef/hi sydd â chyfrifoldeb dros baratoi cyfrifon Estyn a'u trosglwyddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae gofyn i'r Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan y Trysorlys, a rhaid iddo gyflawni'r canlynol yn arbennig:

- glynu wrth y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas mewn ffordd gyson;

- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, fel y nodwyd yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrth y safonau hynny yn y cyfrifon;

- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Nodir dyletswyddau'r Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Estyn, ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ac a geir mewn print yn y ddogfen llawlyfr Cyfrifon y Llywodraeth (Y Llyfrfa).

## DATGANIAD AR Y SYSTEM O REOLI ARIAN YN FEWNOL

Fel Swyddog Cyfrifo Estyn, rwyf yn cydnabod fy nghyfrifoldeb dros sicrhau bod system effeithiol o reoli arian yn fewnol yn cael ei chynnal a'i gweithredu mewn perthynas â'r adnoddau dan sylw. Gan mai sefydliad bach ydyw, fi sy'n gwneud, neu'n cytuno ar nifer o'r penderfyniadau ariannol beunyddiol.

Dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y gall y system o reoli arian yn fewnol ei roi bod asedau wedi'u diogelu, bod trafodion wedi'u hawdurdodi a'u cofnodi'n gywir, a bod gwallau neu afreoleidd-dra perthnasol naill ai'n cael eu hatal neu y byddent yn cael eu canfod o fewn cyfnod derbyniol.

Seilir y system o reoli arian yn fewnol ar fframwaith sy'n cynnwys gwybodaeth rheoli a dderbynnir yn rheolaidd, rheoliadau ariannol, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys rhannu dyletswyddau, a system o ddirprwyo gwaith a phennu atebolrwydd. Yn arbennig, mae'n cynnwys:

- systemau cyllidebu cynhwysfawr ynghyd â chyllidebau blynyddol;
- gweithdrefnau er mwyn adolygu a chytuno ar y cyllidebau hyn;
- archwilio adroddiadau ariannol rheolaidd sy'n nodi'r gwariant gwirioneddol yn erbyn y rhagamcanion;
- pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;
- canllawiau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer rheoli buddsoddiadau cyfalaf;
- disgyblaethau ffurfiol ar gyfer prosiectau, fel y bo'n briodol;
- trefniadau i ddarparu arbenigedd o ran rheoli cyfrifon ac arian gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan gytundeb lefel gwasanaeth.

Mae Estyn yn defnyddio Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan gytundeb codi tâl, sy'n gweithredu yn unol â safonau a ddiffiniwyd yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Caiff gwaith yr uned archwilio mewnol ei lywio gan ddadansoddiad o'r risgiau a ddaw i ran Estyn, a seilir cynlluniau archwilio mewnol blynyddol ar y dadansoddiad hwn. Cadarnheir y dadansoddiad o'r risg a'r cynlluniau archwilio mewnol gennyf i. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi adroddiadau i mi ar yr holl weithgaredd archwilio mewnol a wneir yn Estyn.

Caiff yr adolygiad a gynhelir gennyf o effeithiolrwydd y system o reoli arian yn fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr gweithredol o fewn Estyn sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli ariannol, a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill. Dylanwadir ar yr adolygiad hefyd gan atebion a ddarparwyd i mi gan y Cynulliad ynghylch y gwasanaethau ariannol a ddarperir ganddo.

**Gweithredu Adroddiad Turnbull**

Fel Swyddog Cyfrifo, yr wyf yn ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull ac yr wyf yn cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofynion y Trysorlys o ran paratoi datganiad o reolaeth fewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2002, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd ganddynt hwy.

**Susan Lewis**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo**
**9 Hydref 2001**

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr wyf yn tystio i mi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 9 i 23 o dan baragraff 6 o Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y cytundeb confensiwn cost hanesyddol fel y'i newidiwyd drwy adbrisio rhai asedau sefydlog, a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 13 a 14.

### Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwiliwr

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 5, mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol ag Atodlen 6(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir oddi tani, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, trwy statud, ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio a chanllawiau moesol y proffesiwn archwilio.

Yr wyf yn rhoi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a gânt eu paratoi yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir oddi tani. Yn ogystal, yr wyf yn rhoi fy marn ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Yr wyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Estyn wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Yr wyf yn darllen y wybodaeth arall a geir yn y Cyfrifon, ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Yr wyf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol eraill yn y datganiadau ariannol.

Yr wyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalen 6 yn dangos bod Estyn wedi cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys "Rheolaeth gorfforaethol: datganiad ar y system o reoli arian yn fewnol". Yr wyf yn adrodd os nad yw'n cwrdd â gofynion y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni, o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

### Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys gwaith a gynhelir i archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wneir gan Estyn wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau Estyn, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad mewn modd penodol, fel y gallwn gael gafael ar yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol, er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i mi fedru rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, p'un a yw hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall. Gwnaed hyn hefyd fel y gallwn roi sicrwydd rhesymol bod, ym mhob ystyr berthnasol, y gwariant a'r incwm wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn yr wyf hefyd wedi pwyso a mesur a yw'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol wedi'i chyflwyno mewn ffordd gymwys.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion busnes Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar 31 Mawrth 2001 a gwerth net alldro'r adnoddau, yr adnoddau a ddefnyddiwyd at amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben, a'u bod wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a'r cyfarwyddiadau a wneir yn ôl y gofynion hynny gan y Trysorlys; ac

- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

***John Bourn***
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**30 Hydref 2001**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

## Atodlen 1
## Datganiad o Alldro'r Adnoddau
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2001

Ni chynhyrchwyd 'Atodlen 1: Datganiad o Alldro'r Adnoddau' (yr atodlen reoli seneddol), oherwydd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adrodd ar alldro Estyn yn ei gyfrifon cyhoeddedig ei hun.

---

## Atodlen 2
## Datganiad o'r Costau Rhedeg
am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2001

| | | 2000-2001 | | 1999-2000 |
|---|---|---|---|---|
| | *Nodyn* | £000 | £000 | £000 |
| **Costau gweinyddol** | | | | |
| Costau staff | 2 | | 2,997 | 3,095 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | | 1,203 | 1,789 |
| Costau gweinyddol gros | | | 4,200 | 4,884 |
| Incwm gweithredol | 5 | | - | (6) |
| **Costau gweinyddol net** | | | 4,200 | 4,878 |
| **Costau rhaglenni** | | | | |
| Gwariant | 4 | 2,590 | | 3,260 |
| Llai: Incwm | 5 | (11) | | (6) |
| **Costau net rhaglenni** | | | 2,579 | 3,254 |
| **Cost gweithredu net** | 6 | | **6,779** | **8,132** |
| **Alldro adnoddau net** | 6 | | **6,779** | **8,144** |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau sy'n parhau. Nid oes unrhyw enillion na cholledion ar wahân i'r rhai a nodwyd yn y Datganiad o'r Costau Rhedeg.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 13 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# Atodlen 3
# Mantolen
ar 31 Mawrth 2001

| | Nodyn | 2001 £000 | 2001 £000 | 2000 £000 | 2000 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | | 388 | | 101 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 9 | 128 | | 295 | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 10 | 1,059 | | 924 | |
| | | 1,187 | | 1,219 | |
| **Credydwyr**: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 11 | (1,470) | | (1,524) | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol net** | | | (283) | | (305) |
| **Cyfanswm yr asedau, llai'r rhwymedigaethau cyfredol** | | | 105 | | (204) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | 12 | | (360) | | (436) |
| | | | (255) | | (640) |
| **Ecwiti'r Trethdalwr** | | | | | |
| Y gronfa gyffredinol | 13 | | (255) | | (640) |

**Susan Lewis**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo**
**9 Hydref 2001**

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 13 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Atodlen 4
## Datganiad o Lif Arian Parod
am y flwyddyn a ddaeth i ben ar
31 Mawrth 2001

| | *Nodyn* | **2000-2001** £000 | **1999-2000** £000 |
|---|---|---|---|
| All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredol | 18i | (7,115) | (7,513) |
| Taliadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | - | (1,441) |
| Cyllid | 18ii | 7,250 | 8,500 |
| **Cynnydd (gostyngiad) mewn ariad parod yn y cyfnod hwn** | 10 | **135** | **(454)** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 13 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

# Atodlen 5
## Adnoddau yn ôl Nod ac Amcanion yr Adran
am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2001

**Nod**: Codi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy arolygu a rhoi cyngor annibynnol.

| | **2000-2001** | | | **1999-2000** |
|---|---|---|---|---|
| | **Gros £000** | **Incwm £000** | **Net £000** | **Net £000** |
| **Amcanion:** | | | | |
| 1.Sefydlu a chynnal systemau ar gyfer arolygu Addysg a Hyfforddiant, a meithrinfeydd a gaiff eu hariannu. | 2,832 | 11 | 2,821 | 3,627 |
| 2. Darparu cyngor da, ar sail gwybodaeth gadarn, ar addysg a hyfforddiant i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gwneud yn hysbys arferion da sy'n seiliedig ar dystiolaeth arolygu. | 2, 278 | - | 2,278 | 2,553 |
| 3. Darparu asesiadau da, ar sail gwybodaeth gadarn, am y ddarpariaeth addysg bellach yng Nghymru. | 840 | - | 840 | 976 |
| 4. Cynnal arolygiadau o hyfforddiant a ariennir gan y Cynulliad a gwaith y cwmnïau gyrfaoedd. | 840 | - | 840 | 976 |
| **Cost gweithredu net** | **6,790** | **11** | **6,779** | **8,132** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 13 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

### 1. Datganiad am bolisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r *Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau* a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Ni chynhyrchwyd 'Atodlen 1: Datganiad o Alldro'r Adnoddau' (yr atodlen reoli seneddol), oherwydd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adrodd ar alldro Estyn yn ei gyfrifon cyhoeddedig ei hun. Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Estyn isod. Fe'u cymhwyswyd mewn ffordd gyson wrth ymdrin â'r materion yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon hyn.

1.1 *Arferion Cyfrifo*

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i Estyn trwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.2 *Asedau sefydlog diriaethol*

Datganwyd yr asedau hyn yn ôl eu cost cyfredol gan ddefnyddio mynegeion priodol. Y lefel isaf ar gyfer troi asedau unigol yn gyfalaf yw £1,000.

1.3 *Dibrisiant*

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog diriaethol trwy randaliadau cyfartal dros gyfnod yr oes ddefnyddiol yr amcangyfrifir sydd ganddynt. Mae eu hoes fel a ganlyn:

- Cyfarpar TG 3–5 mlynedd
- Dodrefn a Ffitiadau 5 mlynedd
- Offer Swyddfa 5 mlynedd

Os amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir yr amhariad net ar ar y Datganiad o'r Costau Rhedeg yn y flwyddyn y digwyddodd.

1.4 *Incwm gweithredol*

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredol Estyn yw incwm gweithredol. Gan amlaf, mae'n cynnwys ffïoedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd (ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol) ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi cyfarwyddeb dderbyniadau sy'n caniatáu i Estyn gadw derbyniadau o'r fath o flwyddyn ariannol 2000-2001 ymlaen. Cyn 2000-2001, yr oedd incwm gweithredol yn cynnwys symiau a oedd yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

1.5 *Gwariant gweinyddol*

Dadansoddir y Datganiad o'r Costau Rhedeg yn ôl costau gweinyddu a chostau rhaglenni. Mae costau gweinyddu yn dangos costau rhedeg Estyn fel y diffinnir hynny o dan y system rheoli costau gweinyddol, ynghyd ag incwm cysylltiedig. Dadansoddir incwm yn y nodiadau yn ôl yr hyn, o dan y system, y caniateir ei osod yn erbyn costau gweinyddol gros wrth benderfynu ar yr alldro yn erbyn y terfyn cost gweinyddol, a'r incwm gweithredol hwnnw na chaniateir iddo gael ei osod yn erbyn costau gweinyddol gros.

1.6 *Gwariant rhaglenni*

Mae costau rhaglenni'n adlewyrchu taliadau anweinyddol gan Estyn. Taliadau i drydydd partïon o dan gontract ar gyfer gwaith arolygu yw'r rhain yn bennaf. Caiff unrhyw symiau sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd yn Nhymor y Gwanwyn eu cynnwys o dan y credydwyr. Caiff unrhyw gontractau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer arolygiadau sydd i'w cynnal yn y tymhorau ysgol dilynol eu datgelu fel ymrwymiadau yn y nodiadau i'r cyfrifon.

1.7 *Tâl cyfalaf*

Mae tâl, sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan Estyn, wedi'i gynnwys yn y costau rhedeg. Mae'r tâl wedi'i gyfrifo yn ôl cyfradd safonol y llywodraeth o 6 y cant mewn termau real ar bob ased llai rhwymedigaethau, ar wahân i falansau arian parod a gedwir yn Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM.

1.8 *Treth ar Werth*

Rhoddir cyfrif am wariant gan gynnwys TAW, ac eithrio gwariant ar wasanaethau a roddir ar gontract, y rhoddir cyfrif amdano heb TAW pan fo hyn yn adferadwy.

1.9 *Pensiynau*

Mae darpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gymwys i'r gweithwyr presennol ac i gyn weithwyr. Mae'r cynllun hwn yn un anghyfrannol nad yw'n cael ei ariannu. Er bod y Cynllun yn gynllun budd-daliadau diffiniedig, codir tâl ar y PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill sy'n dod o dan y PCSPS yn talu cost y sicrwydd pensiwn a ddarperir ar gyfer y staff y maent yn eu cyflogi trwy daliadau a gyfrifir ar sail gronnol.

1.10 *Costau ymadael yn gynnar*

Mae gofyn i Estyn dalu cost ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo'r rhwymedigaeth yn codi.

1.11 *Prydlesau Gweithredu*

Codir costau rhentu prydlesau gweithredu ar y Datganiad o'r Costau Rhedeg mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

## 2. Nifer y Staff a chostau staff

a) Mae costau staff yn cynnwys:

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| Cyflogau misol ac wythnosol | 2,409 | 2,528 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 214 | 211 |
| Costau pensiwn eraill | 374 | 356 |
| | **2,997** | **3,095** |

Nid yw Estyn yn talu costau staff gweinidogol.

Talwyd cyfraniadau o £374,373 i'r PCSPS yn 2000-2001 (£356,264 ym 1999-2000) yn ôl y cyfraddau a bennwyd gan Actiwari'r Llywodraeth ac yn unol â chyngor y Trysorlys. Yr oedd y cyfraddau hyn yn yr ystod 12-18.5% o dâl pensyniadwy.

b) Ar gyfartaledd, yr oedd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2000-2001 | 1999-2000 |
|---|---|---|
| Amcan 1 | 6.8 | 7.0 |
| Amcan 2 | 34.1 | 34.8 |
| Amcan 3 | 13.7 | 14.0 |
| Amcan 4 | 13.7 | 14.0 |
| Cyfanswm | 68.3 | 69.8 |

Dosrannwyd cyfanswm nifer y staff rhwng yr amcanion gan gyfeirio at amser a dreuliwyd ar weithgareddau craidd yn Estyn gan aelodau o'r staff. Mae'r gwariant ariannol mewn perthynas ag Amcan 1, fel y'i dangosir yn Atodlen 5, yn cyferbynnu â'r niferoedd isel o staff a ddangosir yma mewn perthynas â'r un amcan am fod arolygiadau o ysgolion a meithrinfeydd yn cael eu contractio i arolygwyr annibynnol nad ydynt yn cael eu cyflogi gan Estyn.

Yn yr un modd mae cost yr holl waith arolygu a chynghori arall a wnaed gan staff Estyn wedi ei chynnwys yn y ffigur Costau Gweinyddol Gros a ddangosir yn y Datganiad o'r Costau Rhedeg. Mae ffigur y Costau Gweinyddol Gros hefyd yn ariannu nifer bach o gontractau am waith a roddwyd ar gontract allanol i Arolygwyr Ychwanegol.

a) Yr oedd hawliau cyflog a phensiwn uwch reolwyr Estyn fel a ganlyn:

| | Oed | Cyfradd cyflog (fel y'i diffinnir isod) £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn yn 60 oed £000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth £000 |
|---|---|---|---|---|
| Susan Lewis – *Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru* | 53 | 65-70 | 0-2.5 | 10-15 |

Mae cyfanswm y pensiynau cronedig yn gysylltiedig â PCSPS yn unig ac nid ydynt yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd i'r cynllun.

Yn unol â DAO 12/00, nid yw gweddill aelodau'r Bwrdd Rheoli wedi rhoi caniatâd i fanylion eu hoed, eu tâl a'u pensiwm gael eu datgelu. Mae eu cyflogau hwy ym Mand Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil (£42,755 - £67,163).

Darperir budd-daliadau pensiwn trwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cynllun statudol yw hwn sy'n darparu budd-daliadau ar sail y 'cyflog terfynol' adeg yr oed ymddeol arferol, sef 60 oed. Mae budd-daliadau'n cronni ar gyfradd o 1/80[fed] o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, pryd y bydd staff yn ymddeol, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â 3 blynedd o bensiwn . Mae'r aelodau yn talu cyfraniadau sy'n werth 1.5 y cant o'u henillion pensiynadwy. Mae pensiynau yn cynyddu o ran taliadau yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Os yw aelod o'r cynllun yn marw, telir pensiynau i'w briod yn ôl cyfradd o hanner pensiwn yr aelod.

Os yw aelod o'r cynllun yn marw ac yntau/hithau yn dal i fod mewn swydd, mae'r cynllun yn talu cyfandaliad sy'n werth ddwywaith y cyflog pensiynadwy ac mae hefyd yn darparu ychwanegiad at wasanaeth hefyd wrth gyfrifo pensiwn y priod. Mae'r ychwanegiad yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Gellir hefyd ymddeol ar sail feddygol os yw aelod yn dioddef o salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb ostyngiad yr actiwari gan ychwanegu at wasanaeth fel y gwneir ar gyfer pensiynau gweddwon.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y taliadau bonws sy'n daladwy am berfformiad, hawl wedi'i chadw i bwysiad Llundain neu i lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau swyddfeydd preifat. Nid yw'n cynnwys gwerth ariannol amcangyfrifedig budd-daliadau mewn da.

---

## 3. Costau gweinyddol eraill

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| Rhentu o dan brydlesau gweithredu: | | |
| - llogi peiriannau ffotogopïo a chyfarpar TG | 15 | 31 |
| - adeiladau | 22 | 17 |
| Adeiladau | 190 | 114 |
| TG a thelathrebu | 241 | 202 |
| Gwasanaethau canolog Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 42 | 59 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | 224 | 222 |
| Tâl yr Archwilydd | 19 | 18 |
| Gwariant arall | 260 | 291 |
| Eitemau heblaw am rai arian parod | | |
| - dibrisiant | 220 | 101 |
| - cost credyd cyfalaf | (40) | (19) |
| - darpariaeth ar gyfer costau ymadael yn gynnar | 9 | 743 |
| - amhariad i asedau sefydlog diriaethol | - | 10 |
| - colled wrth waredu asedau sefydlog diriaethol | 1 | - |
| | **1,203** | **1,789** |

## 4. Costau net rhaglenni

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| **Gwariant cyfredol** | | |
| Arolygu ysgolion a chostau cysylltiedig | 2,442 | 3,159 |
| Arolygu meithrinfeydd a chostau cysylltiedig | 16 | 37 |
| Gwasanaethau gwybodaeth | 164 | 107 |
| Cynadleddau byr a chyrsiau | 14 | 10 |
| | 2,636 | 3,313 |
| Eitemau heblaw am rai arian parod | | |
| - cost credyd cyfalaf | (46) | (53) |
| | 2,590 | 3,260 |
| Llai: incwm o raglenni (nodyn 5) | (11) | (6) |
| | **2,579** | **3,254** |

## 5. Incwm gweithredol

| | 2000-2001 | | | 1999-2000 |
|---|---|---|---|---|
| | Dyraniadau cymorth £000 | Dyraniadau heblaw cymorth £000 | Cyfanswm £000 | Cyfanswm £000 |
| **Incwm gweinyddol** | | | | |
| - incwm arall | - | - | **-** | 6 |
| **Incwm o raglenni** | | | | |
| - ffïoedd cofrestru | 11 | - | **11** | 6 |
| **Cyfanswm** | 11 | - | **11** | 12 |

## 6. Cysoni'r costau rhedeg net â'r cyfanswm rheoli a'r alldro adnoddau net

| | **2000-2001 £000** | **1999-2000 £000** |
|---|---|---|
| Costau rhedeg net | 6,779 | 8,132 |
| Incwm gweithredol heblaw dyraniadau cymorth | - | 12 |
| **Alldro adnoddau net** | **6,779** | **8,144** |

Cyfanswm y gwariant a'r incwm a nodir yn y Datganiada o Gostau Rhedeg (Atodlen 2) yw'r costau rhedeg net. Cyfanswm yr elfennau hynny o wariant ac incwm y mae angen cymeradwyaeth y Senedd ar eu cyfer yw'r alldro adnoddau net.

## 7. Asedau sefydlog

| | Cyfarpar TG £000 | Dodrefn a Ffitiadau £000 | Offer Swyddfa £000 | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 691 | 7 | 5 | 703 |
| Ychwanegiadau | 155 | 230 | 123 | 508 |
| Gwarediadau | - | (3) | - | (3) |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **846** | **234** | **128** | **1,208** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 595 | 4 | 3 | 602 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 147 | 47 | 26 | 220 |
| Gwarediadau | - | (2) | - | (2) |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **742** | **49** | **29** | **820** |
| **Gwerth net ar bapur** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2001** | **104** | **185** | **99** | **388** |
| Ar 31 Mawrth 2000 | 96 | 3 | 2 | 101 |

Nid yw'r golled net wrth ail-brisio yn ystod y flwyddyn yn berthnasol (llai na £1,000).

## 8. Symudiadau mewn cyfalaf gweithredol heblaw arian parod

| | 2000-2001<br>£000 | 1999-2000<br>£000 |
|---|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn dyledwyr | (167) | 29 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn credydwyr | 54 | (178) |
| | (113) | (149) |
| Symudiadau mewn credydwyr cyfalaf | 508 | - |
| | **395** | **(149)** |

## 9. Dyledwyr

| | 2001<br>£000 | 2000<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus yn ystod blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill | 13 | 251 |
| Trethiant | 34 | 22 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 81 | 22 |
| | **128** | **295** |

## 10. Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 2001<br>£000 | 2000<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 924 | 1,378 |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod | 135 | (454) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,059** | **924** |

Mae Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM (OPG) yn darparu gwasanaeth bancio cyfrif cyfredol. Yr oedd y balansau canlynol yn cael eu dal ar 31 Mawrth:

| | 2001<br>£000 | 2000<br>£000 |
|---|---|---|
| Balansau yn Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol | 999 | 887 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 60 | 37 |
| | **1,059** | **924** |

## 11. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus yn ystod blwyddyn

| | 2001<br>£000 | 2000<br>£000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnachol | 811 | 708 |
| Credydwyr eraill | 594 | 719 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 65 | 85 |
| Balans arian parod sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | - | 12 |
| | **1,470** | **1,524** |

## 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

**Costau ymadael yn gynnar:** Rhwymedigaethau uwchlaw budd-daliadau pensiwn arferol cyn-weithwyr sydd wedi ymddeol yn gynnar.

| | £000 |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2000 | 436 |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 9 |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (85) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2001** | **360** |

## 13. Cysoni costau rhedeg net â newidiadau i'r gronfa gyffredinol

| | 2000-2001<br>£000 | 1999-2000<br>£000 |
|---|---|---|
| **Cost rhedeg net ar gyfer y flwyddyn (Atodlen 2)** | (6,779) | (8,132) |
| Incwm heblaw dyraniadau cymorth sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | - | (12) |
| | (6,779) | (8,144) |
| Cyllid net oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 7,250 | 8,500 |
| Addasiadau heblaw rhai arian parod: | | |
| - cost cyfalaf | (86) | (72) |
| **Cynnydd net yn y gronfa gyffredinol** | **385** | **284** |
| Cronfa gyffredinol ar 1 Ebrill 2000 | (640) | (924) |
| **Cronfa gyffredinol ar 31 Mawrth 2001 (Atodlen 3)** | **(255)** | **(640)** |

## 14. Ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol

| | **2001 £000** | | **2000 £000** | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| Ar 31 Mawrth 2001 yr oedd Estyn wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf mewn perthynas â phrydlesau gweithredol sy'n dod i ben: | | | | |
| - ymhen blwyddyn | - | 9 | 16 | 1 |
| - rhwng dwy a phum mlynedd | - | 4 | - | - |
| - ar ôl pum mlynedd | 267 | - | - | - |
| | **267** | **13** | **16** | **1** |

Nid yw eiddo prydlesol tymor byr wedi'u troi yn gyfalaf, gan fod gwerth y prydlesau hyn, yn ein barn ni, yn amherthnasol.

## 15. Ymrwymiadau cyflaf

Gwnaeth Estyn gontract ym mis Mawrth 2001, am swm o £168,083, i roi ffitiadau yn adeiladau Estyn yn Llys Angor. Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf eraill ar 31 Mawrth 2001.

## 16. Ymrwymiadau eraill

Yr oedd Estyn wedi gwneud contractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesau gweithredol) ar gyfer gwaith arolygu sy'n werth cyfanswm o £713,943 ar 31 Mawrth 2001.

## 17. Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2001.

## 18. Nodiadau i'r Datganiad ar Lif Arian

### i) Cysoni'r gost rhedeg â'r llifau arian parod gweithredol

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| Cost rhedeg net | 6,779 | 8,132 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heblaw arian parod | (144) | (782) |
| Addasiadau ar gyfer symud cyfalaf gweithredol heblaw am arian parod | 395 | (149) |
| Defnyddio darpariaethau | 85 | 312 |
| | **7,115** | **7,513** |

### ii) Dadansoddiad o'r ariannu a chysoni'r gofyniad arian parod net

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| Oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 7,250 | 8,500 |
| **Ariannu net** | **7,250** | **8,500** |
| **(Cynnydd)/gostyngiad mewn arian parod** | **(135)** | **454** |
| | 7,115 | 8,954 |
| **Addasiadau ar gyfer taliadau a derbyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflenwi:** | | |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol a dderbyniwyd ac a dalwyd | - | (1,441) |
| **Gofyniad arian parod net** | **7,115** | **7,513** |

## 19. Nodiadau i Atodlen 5

Mae cost credyd cyfalaf Estyn wedi'i dosbarthu rhwng yr amcanion ar sail costau gros cysylltiedig.

Mae gwariant ar raglenni wedi'i ddyrannu fel a ganlyn:

| | 2000-2001 £000 | 1999-2000 £000 |
|---|---|---|
| 1. Sefydlu a chynnal systemau arolygu Addysg a Hyfforddiant a darpariaeth feithrin a ariennir. | 2,412 | 3,146 |
| 2. Darparu cyngor da, ar sail gwybodaeth gadarn, ar addysg a hyfforddiant i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i wneud yn hysbys arferion da ar sail tystiolaeth arolygu. | 178 | 114 |
| | **2,590** | **3,260** |

Mae costau gweinyddu wedi'u priodoli i amcanion yn unol â'r defnydd arfaethedig o adnoddau yn ystod y flwyddyn. Mae incwm wedi'i ddyrannu i amcanion yn yr un cyfrannau â gwariant cysylltiedig.

## 20. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Yr oedd nifer bach o drafodion perthnasol yn ystod y flwyddyn rhwng Estyn a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydliadau'r Llywodraeth yr ystyrir eu bod yn bartïon cysylltiedig, sef:

Y Comisiwn Archwilio
Asiantaeth Ceir ac Anfon y Llywodraeth
Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM
Cyllid y Wlad

Nid oedd unrhyw un o'r staff rheoli allweddol na'r partïon eraill cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Estyn yn ystod y flwyddyn.